


# ADRODDIAD PROSIECT CWPANAU

2019

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Mae yfed wrth fynd wedi dod yn fwy a mwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyhoedd yn poeni am blastig ac mae galw am ailgylchu cwpanau coffi.

Ym mis Ionawr 2019, gyda chefnogaeth y *Paper Cup Recycling and Recovery Group*, lansiodd Cadwch Gymru'n Daclus a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd brosiect newydd sbon i leihau gwastraff cwpan a rhoi hwb i ailgylchu wrth fynd ar gampus Llandaf. Fel rhan o'r prosiect, prynwyd pedwar bin ailgylchu cwpanau (un ar gyfer pob siop goffi). Mae'r holl gwpanau sy'n cael eu taflu yn y biniau cwpan hyn yn cael eu casglu, eu prosesu a'u trawsnewid yn gynhyrchion newydd gan *Simply Cups*. Yn ogystal â'i gwneud yn hawdd i bobl ailgylchu, mae'r prosiect yn annog pobl i ddefnyddio cwpanau y gellir eu hailddefnyddio a defnyddio cyfleusterau ail-lenwi dŵr helaeth y brifysgol. Rydym wedi datblygu deunyddiau dwyieithog pwrpasol gyda'r negeseuon canlynol.

| Neges | Nod |
|---|---|
| 'Allweddi, Waled, Ffôn, Cwpan' | Annog pobl i ddefnyddio cwpanau y gellir eu hailddefnyddio |
| 'Rhowch ail gynnig i'ch cwpan' | Annog pobl i gael gwared ar eu cwpanau un defnydd yn y biniau cwpan newydd |

Casglwyd data gan y brifysgol dros gyfnod o 17 wythnos a gellir crynhoir llwyddiannau'r prosiect fel a ganlyn:

- Mae cyflwyno cwpan y gellir ei hailddefnyddio yn caniatáu i ddefnyddwyr gael gostyngiad o 10% ar eu diod. Roedd cwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn cynrychioli 12.9% o'r gwerthiannau.
- Gwaredwyd 10.7% o werthiannau cwpan untro yn y biniau cwpan.
- Gwerthwyd cyfanswm o 636 cwpan y gellir eu hailddefnyddio (37.4 yr wythnos, ar gyfartaledd).

Fe wnaeth Cadwch Gymru'n Daclus arolygon yn arsylwi ar ymddygiad pobl ar y campws. Dangosodd hyn fod mwy na 70% o gwpanau untro yn gadael yr adeilad h.y. roeddent ddiodydd i 'fynd â nhw' yn hytrach nag i 'yfed i mewn'. O'r cwpanau untro a oedd yn aros yn y siopau coffi, roedd y mwyafrif yn cael eu rhoi yn y biniau yn yr adeilad, gyda biniau gwastraff cyffredinol yn cael eu defnyddio amlaf. Crëwyd hefyd holiadur i ddefnyddwyr y campws, gyda'r canlyniadau canlynol:

- Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr eu bod yn gwaredu eu cwpanau mewn bin. Bin ailgylchu cyffredinol oedd yr opsiwn a atebwyd amlaf.
- Ar ôl y lansiad, dywedodd 17.1% o'r ymatebwyr eu bod yn cael gwared ar eu cwpanau mewn bin cwpan.
- Roedd perchnogaeth cwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn uchel (64.8%) cyn y lansiad a chynyddodd i 75.2% ar ôl y lansiad.
- Pan ofynnwyd iddynt am eu newid ymddygiad ers y tymor diwethaf, dywedodd 35.9% o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu cwpan y gellir ei hailddefnyddio a'u bod wedi ei defnyddio. Dywedodd 18.4% eu bod yn defnyddio cwpan na ellir ei hailddefnyddio ond eu bod yn edrych am fin ailgylchu siâp cwpan i'w ddefnyddio.
- Roedd 51.0% o'r ymatebwyr wedi gweld un neu'r ddau o'r negeseuon (gyda data'n dangos ymwybyddiaeth gynyddol dros amser).
- Cynyddodd nifer yr ymatebwyr a oedd wedi gweld y biniau cwpan newydd o 47.2% ym mis Chwefror i 72.5% ym mis Mawrth (ffigur cyffredinol o 59.6%).

- Mae sylwadau ar yr holiadur yn adlewyrchu bod defnyddwyr y campws yn ceisio gwneud y peth iawn a bod eu hymddygiad cyfrifol yn ymestyn i ddiodydd oer yn ogystal â diodydd poeth. Maent hefyd yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ymgyrch y brifysgol i hyrwyddo achosion amgylcheddol a chynaliadwyedd.

Mae canlyniadau'r treial hwn yn galonogol. Gyda chefnogaeth y diwydiant, gallwn adeiladu ar y rhain trwy ddysgu o brosiectau tebyg eraill. Bydd hyn yn caniatáu i ni symud ymlaen i newid ymddygiad yn ehangach er budd yr amgylchedd.

Am gopi o'r adroddiad, cysylltwch â leq@keepwalestidy.cymru



© Cadwch Gymru'n Daclus

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13